# Darpariaeth newyddion BBC Scotland

Datganiad ar gais gan y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 06 Awst 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ........ 3
2. Cefndir ........ 5
3. Sylwadau rhanddeiliaid a’n hymatebion ........ 6
4. Penderfyniad ........ 12


## Annex


A1. Hysbysiad o Amrywio ........ 13

A2. Fframwaith Cyfreithiol ........ 14

# 1. Trosolwg

## Mae'r ddogfen hon yn nodi darpariaeth Ofcom ar gais gan y BBC i newid y cwota newyddion yn ei Drwydded Weithredu ar gyfer sianel BBC Scotland.

1.1 Mae'r BBC yn chwilio am ostyngiad yn nifer yr oriau o newyddion sy'n ofynnol yn ystod oriau brig ar BBC Scotland o 250 awr y flwyddyn galendr i 125 awr. Roedd yn awgrymu y bydd hyn yn ei alluogi i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well gyda chynnwys newyddion a materion cyfoes, drwy ail-lunio ei ddarpariaeth.

1.2 Mae'r BBC wedi cynnig lansio rhaglen newyddion rhanbarthol 30 munud newydd i'w darlledu am 7pm, bum diwrnod yr wythnos ar sianel BBC Scotland, yn lle'r rhaglen newyddion awr o hyd bresennol a gaiff ei darlledu bob nos, *The Nine*.[1] Roedd hefyd yn cynnig nifer o newidiadau golygyddol eraill i'r ddarpariaeth newyddion yn yr Alban yr ydym wedi'u hystyried wrth ddod i'n penderfyniad ar gais y BBC, ond nid ydynt yn amodol ar ein cymeradwyaeth reoleiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys: ymestyn *Reporting Scotland* ar BBC One Scotland i un awr sawl gwaith y flwyddyn; cyfres newydd o bodlediadau materion cyfoes sy'n canolbwyntio ar yr Alban a fydd ar gael ar BBC Sounds, BBC iPlayer ac yn cael ei darlledu ar y teledu; gwasanaeth newyddion ar-lein gwell ar BBC Scotland; ac ymestyn y rhaglen *Debate Night* yn ystod 2024.[2]

1.3 Roeddem wedi ymgynghori ar ein safbwynt dros dro, rhwng 3 Mai a 4 Mehefin 2024, ein bod yn bwriadu cymeradwyo'r cais, yn amodol ar ymgynghoriad. Yng ngoleuni'r newid yn arferion gwylio cynulleidfaoedd yn yr Alban, gyda symudiad parhaus i ar-lein, fe wnaethom gytuno ein bod yn cytuno y dylai'r BBC fod yn arloesi er mwyn addasu i ddisgwyliadau'r gynulleidfa a dod o hyd i ffyrdd o gysylltu cynulleidfaoedd yr Alban at ei allbwn newyddion a materion cyfoes. Daethom i'r casgliad hefyd fod y risg i gystadleuaeth deg ac effeithiol o ganlyniad i'r cynnig yn isel.

1.4 Cawsom chwech ymateb i'n hymgynghoriad.[3] Roedd un ymatebydd o'r farn bod nifer o gwestiynau i'w hystyried cyn i Ofcom gymeradwyo cais y BBC. Roedd y BBC yn cytuno â'n safbwynt dros dro, roedd tri ymatebydd yn cytuno â'n safbwynt dros dro yn amodol ar amodau a chymwysterau penodol ac roedd un yn anghytuno'n llwyr. Ar ôl ystyried yr ymatebion hyn yn ofalus, rydym wedi penderfynu cymeradwyo cais y BBC i leihau'r oriau o newyddion sydd eu hangen yn ystod oriau brig BBC Scotland o 250 awr y flwyddyn galendr i 125 awr.

---

[1] Ar adeg y cynnig, darlledwyd *The Nine* am 9pm o ddydd Llun i ddydd Iau ar sianel BBC Scotland, gyda bwletin cynharach - *The Seven* - yn cael ei ddarlledu am 7pm ar nos Wener.

[2] Gweler [Cyflwyniad y BBC am newidiadau i'r Drwydded Weithredu.]()

[3] Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi yma: [https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/bbc/statement-bbc-scotland-channel-news-provision/](https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/bbc/statement-bbc-scotland-channel-news-provision/)

## Ein penderfyniadau – yn gryno

**Rydym wedi penderfynu cymeradwyo cais y BBC i leihau'r oriau o ddarpariaeth newyddion sy'n ofynnol o dan y Drwydded Weithredu yn ystod oriau brig ar sianel BBC Scotland o 250 i 125 awr y flwyddyn galendr.** Rydym o'r farn bod y cwota newyddion diwygiedig yn briodol ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus ac mae gan y Cais y potensial i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn yr Alban o ystyried newidiadau mewn arferion gwylio.

Mae cynnig y BBC i ddarparu mwy o gynnwys newyddion ar-lein i gynulleidfaoedd yn yr Alban, ar yr un pryd â pharhau i ddarparu cynnwys ar deledu sy'n cael ei ddarlledu, yn cyd-fynd â'r newidiadau yn nefnydd cynulleidfaoedd ar draws y farchnad o sianeli newyddion traddodiadol i lwyfannau ar-lein.

**Wrth wneud y newidiadau hyn, bydd angen i'r BBC fod yn dryloyw ynghylch sut mae'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban, a byddwn yn parhau i'w ddal i gyfrif.** Rydym yn disgwyl i'r BBC fonitro perfformiad newidiadau i sianel BBC Scotland ac iddo egluro sut mae wedi cyflawni i gynulleidfaoedd yn yr Alban. Byddwn yn parhau i fonitro ei berfformiad yn ofalus a byddwn yn adrodd ar sut mae wedi perfformio mewn perthynas â'r newidiadau y flwyddyn nesaf yn ein hadroddiad blynyddol. Nododd y BBC yn ei ymateb ei fod yn bwriadu monitro perfformiad cyffredinol y rhaglen newyddion 7pm newydd, gan gynnwys ei berfformiad gyda'r gynulleidfa darged ac ar draws gwahanol grwpiau demograffig cynulleidfaoedd. Mae newyddion yn rhan annatod o arlwy'r BBC a rhaid iddo barhau i fod wrth galon yr hyn y mae'n ei wneud.

Mae'n rhaid i'r BBC, o dan ei Drwydded Weithredu, sicrhau ei fod yn darparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban.[4] Yn ogystal â hyn, bydd gofynion tryloywder yn y Drwydded Weithredu bresennol yn sicrhau bod y BBC yn cyhoeddi ei gynlluniau ynghylch sut y mae'n bwriadu darparu cynnwys o'r fath i gynulleidfaoedd yn yr Alban, a fydd yn ein galluogi i olrhain ei berfformiad yn y maes hwn a'i ddwyn i gyfrif. Rydym yn ymwybodol efallai na fydd y BBC bob amser yn llwyddiannus pan fydd yn arloesi ac yn arbrofi i gyrraedd cynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd. Serch hynny, rydym yn credu bod hyn yn bwysig i'r BBC wneud hynny a rhaid iddo sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ystwyth ac yn barod i addasu pan fo angen.

Byddwn yn rhoi sylw penodol i sut mae'r BBC yn dweud ei fod yn mynd i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yr Alban am newyddion yn ei Gynllun Blynyddol y flwyddyn nesaf.

**Dim ond crynodeb lefel uchel byr yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r penderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.**

[4] Mae amod 4.42 y Drwydded Weithredu yn datgan: "Mewn perthynas â BBC iPlayer, BBC Sounds, Gwefan y BBC, BBC One Scotland, BBC Scotland, BBC Alba, BBC Radio Scotland a BBC Radio nan Gàidheal, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban".

# 2. Cefndir

2.1 Fel rhan o'n gwaith i reoleiddio'r BBC, mae'n ofynnol i ni o dan Siarter a Chytundeb y BBC osod Trwydded Weithredu ar gyfer y BBC, gan gynnwys amodau rheoleiddio sy'n briodol yn ein barn ni i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth[5] ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus.[6] Mae gennym y pŵer i ddiwygio'r Drwydded Weithredu, ar ôl ymgynghori â'r BBC ac ag unrhyw berson sy'n briodol yn ein barn ni. Rhwng 3 Mai a 4 Mehefin 2024, fe wnaethom ymgynghori ar y cais i leihau'r cwota newyddion ar sianel BBC Scotland 50% o'r 250 awr bresennol yn ystod oriau brig y flwyddyn galendr i 125 awr.[7]

2.2 Rydym yn ystyried amrywiadau i'r Drwydded Weithredu o fewn fframwaith y gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol, sydd wedi'u nodi yn Atodiad A2.

2.3 Yn ogystal â gofyn am ostyngiad yn y cwota newyddion, mae cyflwyniad y BBC hefyd yn nodi cynigion sy'n ymwneud ag amserlennu a newidiadau golygyddol i'w allbwn newyddion a materion cyfoes. Fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, adolygwyd y cynigion hyn gennym ond fe nodom mai mater i Fwrdd y BBC ac nid i Ofcom o dan Siarter a Chytundeb y BBC yw penderfyniadau amserlennu a golygyddol.[8]

2.4 Felly, roedd ein hasesiad ynghylch a ddylid amrywio'r Drwydded Weithredu yn ystyried, ymysg pethau eraill, yr effaith ar gynulleidfaoedd ac ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Gwnaethom hefyd gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb o'r amrywiad arfaethedig, a nodwyd gennym yn y ddogfen ymgynghori.[9]

---

[5] Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (erthygl 5 yn y Siarter)

[6] Dyma Ddibenion Cyhoeddus y BBC: 1) darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas; 2) cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed; 3) dangos y cynnyrch a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig o'r ansawdd gorau; 4) adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU a thrwy wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y DU; a 5) adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd (erthygl 6 yn y Siarter).

[7] Gweler Consultation:Darpariaeth newyddion BBC Scotland

[8] Gweler Consultation: BBC Scotland news provision, paragraff 2.11

[9] Gweler Consultation: BBC Scotland news provision, Atodiad 3

# 3. Sylwadau rhanddeiliaid a'n hymatebion

3.1 Cawsom chwech ymateb https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/bbc/statement-bbc-scotland-channel-news-provision/ i'n hymgynghoriad. Yn yr adran hon, rydym yn trafod safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein casgliadau dros dro ac yna'n nodi ein hymateb. Rydym yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid yn gyntaf drwy roi sylw i sylwadau sy'n ymwneud â'r effaith ar gynulleidfaoedd, ac yna sylwadau ar yr effaith bosibl ar gystadleuaeth. Rydym hefyd yn trafod sylwadau eraill a godwyd ynghylch mwy o dryloywder a dal y BBC i gyfrif am ddarparu newyddion a materion cyfoes i gynulleidfaoedd yn yr Alban.

## Effaith ar gynulleidfaoedd

### Yr hyn roedden ni wedi'i ddweud

3.2 Nododd ein hymgynghoriad ein barn dros dro y byddai'r cwota newyddion diwygiedig yn briodol ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus ac fe wnaethom ddweud fod gan gynnig y BBC y potensial i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn yr Alban o ystyried newidiadau mewn arferion gwylio. Fe wnaethom egluro bod gostyngiad parhaus wedi bod yn nifer y cynulleidfaoedd sy'n gwylio cynnwys newyddion ar sianel BBC Scotland, wrth iddyn nhw ddewis defnyddio cynnwys o'r fath ar-lein fwyfwy.[10]

3.3 Roeddem wedi dweud ei bod yn ymddangos bod newidiadau arfaethedig eraill y BBC i allbwn newyddion a materion cyfoes yn cyd-fynd â disgwyliadau cynulleidfaoedd ac arferion gwylio.[11] Fe wnaethom nodi y dylai'r BBC fod yn arloesi i ymgysylltu cynulleidfaoedd yr Alban â'i allbwn newyddion a materion cyfoes wrth i'w ymddygiad gwylio esblygu.

### Crynodeb o safbwyntiau rhanddeiliaid

3.4 Er bod nifer o randdeiliaid yn cytuno â'r cynigion i leihau'r cwota (rhai yn ddarostyngedig i amodau penodol), codwyd nifer o faterion. Dywedodd Llywodraeth yr Alban, a oedd yn anghytuno â lleihau'r cwota, nad oedd yr un o'r cynigion a gyflwynwyd gan y BBC (y tu allan i'r prif gais am gwotâu) yn cael eu hadlewyrchu fel cwotâu yn y Drwydded Weithredu. Awgrymwyd hefyd bod angen cwotâu i sicrhau bod y BBC yn darparu digon o newyddion a materion cyfoes.[12] Yn ychwanegol, roedd Llywodraeth yr Alban yn credu bod angen cwotâu i ddal y BBC i gyfrif a hebddyn nhw byddai'n ei gwneud hi'n anoddach i Ofcom wneud hynny.[13]

---

[10] Gweler Consultation: BBC Scotland news provision, paragraff 3.13 -3.19
[11] Gweler Consultation: BBC Scotland news provision, paragraff 3.20 - 3.22
[12] Gweler Scottish Government's consultation response, tudalen 2, paragraff 2
[13] Gweler Scottish Government's consultation response, tudalen 2, paragraff 3

3.5 Dywedodd Llywodraeth yr Alban fod perygl y gallai ansawdd adroddiadau newyddion am yr Alban ac o safbwynt yr Alban ddirywio.[14] Roedd hefyd yn awgrymu y gallai cwota is effeithio ar ddemograffeg benodol, yn enwedig y rheini dros 54 oed, a oedd yn debygol o fod yn fwy dibynnol ar newyddion teledu sy'n cael ei ddarlledu a bod yn rhaid i'r BBC ddiwallu anghenion pob cynulleidfa.[15]

3.6 Nododd Llywodraeth yr Alban nad yw rhaglenni materion cyfoes yn cymryd lle rhaglenni newyddion ac felly fel y mae'r cynnig yn sefyll, maent o'r farn ei fod yn golygu gostyngiad sylweddol yn yr allbwn newyddion yn yr Alban.[16]

## Ein hymateb

3.7 Mae newyddion yn rhan annatod o arlwy'r BBC ac rydym yn disgwyl i'r BBC sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei ofynion a diwallu anghenion cynulleidfaoedd drwy gydol y flwyddyn. Cwotâu yw un o'r ffyrdd rydym yn dal y BBC i gyfrif am gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas â darparu newyddion. Fodd bynnag, mae angen i'r BBC addasu i arferion cynulleidfaoedd o ran y cyfryngau a gallu darparu lle mae cynulleidfaoedd eisiau gwylio a gwrando ar gynnwys. Rydym hefyd wedi dweud ein bod yn disgwyl i'r BBC fod yn fwy arloesol ac arbrofi o ran sut mae'n cyrraedd ac yn apelio at gynulleidfaoedd.[17]

3.8 Rydym yn credu y bydd llai o gwota ar gyfer newyddion ar sianel BBC Scotland yn sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu newyddion ar y sianel. Ar yr un pryd, bydd hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC arbrofi â lle mae'n darparu ei gynnwys newyddion a materion cyfoes er mwyn parhau i fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban, sy'n defnyddio llai o gynnwys fwyfwy drwy deledu llinol.

3.9 Fel y nodwyd gennym yn ein hymgynghoriad,[18] o ystyried bod y BBC yn bwriadu darparu newyddion rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar yr Alban yn y rhaglen newydd, ni fyddai cynulleidfaoedd sianel BBC Scotland yn cael newyddion rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol rheolaidd ar y sianel mwyach. Fodd bynnag, mae'r math hwnnw o newyddion a newyddion yn gyffredinol ar gael i gynulleidfaoedd yn yr Alban ar wasanaethau eraill y BBC megis BBC One, radio'r BBC a gwasanaethau ar-lein y BBC.

3.10 Rydym yn nodi bod y Drwydded Weithredu hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu cynnwys o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban. Yn ychwanegol, mae'r gofynion tryloywder yn y Drwydded Weithredu yn mynnu bod y BBC yn cyhoeddi cynlluniau ar gyfer sut mae'n cynnig darparu ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn. Yn ychwanegol, rydym hefyd yn asesu perfformiad y BBC drwy ddulliau eraill gan gynnwys ymchwil cynulleidfa. Rydym yn credu bod y Drwydded Weithredu, y fframwaith mesur perfformiad a'n gallu i gamu i mewn lle bo angen, yn sail i drefn reoleiddio sy'n effeithiol o ran dal y BBC i gyfrif.

3.11 O ran yr effaith bosibl ar gynulleidfaoedd penodol, rydym yn cydnabod bod cynigion y BBC yn golygu llai o newyddion teledu sy'n cael ei ddarlledu ac yn lle hynny mwy o ddarpariaeth ar blatfformau a chyfryngau eraill, fel ar-lein ac ar bodlediadau. Fodd bynnag, roeddem

---

[14] Gweler Scottish Government's consultation response, tudalennau 4-5, paragraff 2-4
[15] Gweler Scottish Government's consultation response, tudalen 3, paragraff 2-3
[16] Gweler Scottish Government's consultation response, tudalen 2, paragraff 1
[17] Gweler, Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, paragraff 7.43.
[18] Gweler Consultation:Darpariaeth newyddion BBC Scotland

wedi ystyried yr effaith ar gydraddoldeb ar grwpiau a allai ffafrio gwasanaethau llinol traddodiadol, yn enwedig y rheini o ddemograffeg hŷn. Nodwyd yn ein dogfen ymgynghori, er bod demograffeg oedrannus yn gwylio’r cynnwys a oedd yn cael ei ddarparu ar sianel BBC Scotland, eu bod yn gwneud hynny lai a llai. Rydym yn dal o’r farn bod unrhyw effaith niweidiol ar y grŵp hwn yn debygol o fod yn fach iawn, oherwydd bydd newyddion sy’n cael eu darlledu yn dal i gael eu darparu ar sianel BBC Scotland ac ar wasanaethau teledu eraill y BBC. Mae unrhyw effaith yn debygol o gael ei lliniaru ymhellach gan gynlluniau arfaethedig y BBC i ddarparu pecyn o gynnwys newyddion a materion cyfoes y mae’n awgrymu y bydd yn ei alluogi i wasanaethu pob cynulleidfa’n well.

3.12 Rydym yn dod i’r casgliad y bydd y diwygiad arfaethedig yn helpu i sicrhau bod Diben Cyhoeddus 1 yn cael ei gyflawni’n gyffredinol.[19]

# Yr effaith ar gystadleuaeth

## Yr hyn roedden ni wedi’i ddweud

3.13 Gwnaethom nodi bod y BBC wedi nodi yn ei gais nad oedd yn credu y byddai effaith andwyol ar y farchnad o ganlyniad i ddisodli *The Nine* â rhaglen newyddion 7pm a llenwi’r slot 9pm gyda chynnwys amrywiol. Roedd yn nodi y byddai y rhaglen newyddion 7pm newydd yn cael ei darlledu ar yr un pryd ag o leiaf dair rhaglen newyddion arall.[20] Fodd bynnag, dywedodd y byddai’r rhaglen newydd yn canolbwyntio ar newyddion yr Alban, yn wahanol i raglenni newyddion eraill a ddangoswyd ar hyn o bryd, a bod demograffeg gysylltiedig y gynulleidfa yn wahanol.[21]

3.14 Ar ôl pwyso a mesur, roeddem o’r farn bod y risg i gystadleuaeth deg ac effeithiol o ganlyniad i gynnig y BBC yn isel.

## Crynodeb o safbwyntiau rhanddeiliaid

3.15 Fe wnaeth STV fynegi pryderon am effaith y newidiadau arfaethedig ar y farchnad ehangach. Nododd fod gan rai o'r rhaglenni newyddion eraill y byddai'r rhaglen 7pm newydd yn cystadlu yn eu herbyn broffiliau cynulleidfa tebyg i'r rhai y mae'r rhaglen newydd yn ceisio'i ddenu, sy’n ymwneud yn benodol â chynulleidfaoedd C2DE.

3.16 Roedd pryder arall yn ymwneud â beth fyddai’r rhaglenni newydd arfaethedig yn y slot 9pm wedi’i ryddhau. Awgrymwyd, yn dibynnu ar y cynnwys a ddangosir, y gallai’r effaith ar wasanaethau cystadleuwyr fod yn sylweddol, yn enwedig os yw’r cynnwys yn ymwneud â genres fel chwaraeon byw, sydd, yn ôl y sôn, wedi denu rhai o gynulleidfaoedd uchaf y BBC yn yr Alban. Nodwyd hefyd bod angen mwy o eglurder gan y BBC ar fanylion y rhaglenni arfaethedig y mae’n bwriadu eu dangos yn y slot 9pm.[22]

---

[19] Mae Diben Cyhoeddus 1 yn mynnu bod y BBC yn darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o’u cwmpas:

[20] Un gan sianel BBC News a dwy gan ddarlledwyr eraill (Channel 4 ac ITV). Mae rhaglen *Channel 4 News* Channel 4 yn cael ei darlledu rhwng 7pm ac 8pm o nos Lun i nos Wener, ac mae *ITV Evening News* yn darlledu’n rheolaidd rhwng 6.30pm a 7.30pm ar STV ac ITV ar gyfer gwylwyr yn yr Alban.

[21] Mae’r BBC yn nodi yn ei gyflwyniad bod *59% o gynulleidfa The Nine o ddemograffeg C2DE tra bo 63% o gynulleidfa Channel 4 News yn ABC1 a dim ond 37% yn C2DE. Rydym yn bwriadu i’r rhaglen newyddion 7pm newydd fod â demograffeg debyg i gynulleidfa The Nine.*

[22] Gweler STV’s consultation response, tudalen 4, pwynt 6

## Ein hymateb

3.17 Yn ei gyflwyniad, nododd y BBC, er mai Channel 4 News a'r ITV Evening News oedd y mwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynigion, ei fod yn disgwyl y byddai unrhyw effaith yn fach iawn oherwydd nad oedd y naill raglen na'r llall yn canolbwyntio ar newyddion yr Alban yn unig, yn wahanol i raglen newydd arfaethedig y BBC.[23]

3.18 Rydym wedi adolygu'r pwyntiau a godwyd gan STV. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, nid yw cylch gwaith Ofcom yn ymestyn i benderfyniadau golygyddol ac amserlennu. Rydym hefyd yn tynnu sylw at benderfyniadau unigol ynghylch amserlennu rhaglenni yn ein Canllawiau ar Gystadleuaeth y BBC, fel enghraifft o benderfyniad busnes o ddydd i ddydd na fyddem yn ei ystyried yn berthnasol (hynny yw, newid a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol).[24] Rydym hefyd yn nodi bod y BBC, dros ran o Bencampwriaeth Pêl-droed Ewrop 2024, wedi gwneud y penderfyniad golygyddol i symud *The Nine* i slot 7pm dros dro. Rydym yn deall bod hyn wedi cael ei wneud yn rhannol i ddarparu slot sefydlog ar gyfer darpariaeth newyddion yn ystod y gêm bêl-droed a Wimbledon.

3.19 Yng ngoleuni'r uchod, rydym yn ystyried bod y risg i gystadleuaeth deg ac effeithiol yn isel. Fodd bynnag, pe baem yn cael unrhyw dystiolaeth o bryderon gan randdeiliaid yn y dyfodol, byddem yn eu hystyried.

# Dal y BBC i gyfrif a sylwadau eraill

## Yr hyn roedden ni wedi'i ddweud

3.20 Fe wnaethom ddweud ei bod yn bwysig bod y BBC yn dryloyw ynghylch sut mae ei gynigion yn sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn yr Alban. Nodwyd gennym y byddai'r gofynion tryloywder yn y Drwydded Weithredu yn golygu y byddai angen i'r BBC ddangos sut, er enghraifft, mae ei ddull o ddarparu newyddion ar-lein yn hyrwyddo ymgysylltu â chynulleidfaoedd yn yr Alban, y byddem yn ei fonitro drwy ein rhaglen perfformiad.

3.21 Roeddem wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai'r rhaglen newyddion rhanbarthol arfaethedig sy'n canolbwyntio ar yr Alban yn golygu na fyddai cynulleidfaoedd sianel BBC Scotland yn cael yr amrywiaeth o newyddion rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol a oedd yn cael eu cynnig ar y sianel yn flaenorol.[25] Fe wnaethom ddweud pe byddem yn cymeradwyo'r cais, y byddem yn disgwyl i'r BBC fonitro'r agwedd hon ar y cynnig yn agos, er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban. Fe wnaethom egluro y byddem hefyd yn monitro drwy ein fframwaith perfformiad, sy'n cynnwys gofyn i gynulleidfaoedd pa mor fodlon ydynt â'r BBC a'i ddarpariaeth newyddion bob blwyddyn. Os bydd angen, byddai angen rhagor o wybodaeth arnom gan y BBC i'n galluogi i asesu perfformiad yn llawn.

[23] Gweler Cyflwyniad y BBC am newidiadau i'r Drwydded Weithredu, paragraff 2.6
[24] Gweler Canllawiau ar Gystadleuaeth y BBC, Ofcom, paragraff 4.10
[25] Gweler Consultation: BBC Scotland news provision, paragraff 3.26

## Crynodeb o safbwyntiau rhanddeiliaid

3.22 Gofynnodd Pwyllgor Cynghori'r Alban am sicrwydd gan Ofcom ynghylch sut y byddem yn monitro effaith unrhyw newidiadau dilynol newydd yn brydlon, er mwyn i ni allu delio ag unrhyw faterion yn gyflym.[26]

3.23 Roedd hefyd yn gofyn am fwy o dryloywder gan y BBC ynghylch sut byddai ei gynigion yn parhau i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn yr Alban yn cael gwasanaeth da o ran newyddion a materion cyfoes. Roedd yn teimlo nad oedd cynigion y BBC yn mynd yn ddigon pell o ran ystyried gwelliant gwirioneddol a systemig, a bod yr hyn a gyflwynwyd yn ei hanfod yn "*ad-drefniant o'r trefniadau presennol*".[27] Mynegwyd pryder hefyd ynghylch cynigion y BBC mewn perthynas â datblygu darpariaeth newyddion lleol ar-lein. Nodwyd bod y newidiadau a awgrymwyd gan y BBC yn mynnu bod pobl yn *"mynd ati i chwilio am y newyddion yn hytrach na dod atynt drwy gynnwys integredig."*[28] Roedd yn awgrymu y dylid bod wedi sôn mwy am ddatblygu strategaeth/cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion BBC Scotland.

3.24 Mynegwyd pryderon gan y Voice of Listener and Viewer (VLV) am natur dros dro rhai o gynigion y BBC a beth fyddai'n digwydd i'r gyllideb a ddyrannwyd pe na baent yn parhau.[29] Dywedodd rhai ymatebwyr fod diffyg eglurder yng nghynnig y BBC i ymestyn *Reporting Scotland* ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn, a'i strategaeth o ba mor aml y byddai'r estyniadau hynny'n digwydd ac wedyn yn gorgyffwrdd â'r rhaglen newydd.[30] [31] Nododd VLV hefyd fod y risg o ailadrodd cynnwys/straeon newyddion yn debygol os nad oedd gwahaniaeth golygyddol clir rhwng y rhaglen newyddion 7pm newydd a rhaglenni newyddion presennol y BBC.[32] Mynegwyd y pryder hwn hefyd gan yr Athro Beveridge.[33]

3.25 Nododd yr Athro Beveridge hefyd ddiffyg cyllideb a'r effaith y gallai hyn ei chael ar natur unigryw'r rhaglen 7pm newydd.[34]

# Ein hymateb

### Dal y BBC i gyfrif

3.26 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid ei bod yn bwysig bod y BBC yn dryloyw ynghylch sut mae'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban ar draws ei wasanaethau. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n rhaid iddo, o dan ei Drwydded Weithredu, sicrhau ei fod yn darparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban a'i fod yn cyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer sut mae'n bwriadu gwneud hyn ac yna'n adrodd ar ei berfformiad yn erbyn y cynlluniau hyn.

3.27 O dan y Drwydded Weithredu, er bod gan y BBC fwy o hyblygrwydd erbyn hyn i ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd, mae'r hyblygrwydd hwn yn cael ei

[26] Gweler ACS's consultation response, tudalen 4-5, paragraff 5
[27] Gweler ACS's consultation response, tudalen 2, paragraff 6
[28] Gweler ACS's consultation response, tudalen 3, paragraff 1
[29] Gweler VLV's consultation response, tudalen 4, pwynt 10a-c
[30] Gweler Scottish Government's consultation response, tudalen 2, paragraff 1
[31] Gweler Professor Beveridge's consultation response, tudalen 1, pwynt 3
[32] Gweler VLV's consultation response, tudalen 4-5, pwynt 10d-e
[33] Gweler Professor Beveridge's consultation response, tudalen 1, pwynt 3
[34] Gweler Professor Beveridge's consultation response, tudalen 1, pwynt 3

fonitro'n agos ac yn rheolaidd gan Ofcom. Rydym yn cael gwybodaeth gyson a pharhaus drwy ein hymchwil i gynulleidfaoedd, drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a thrwy geisiadau am wybodaeth i'r BBC. Er ein bod yn adrodd yn gyhoeddus ar y BBC unwaith y flwyddyn, mae ein gwaith monitro ar berfformiad y BBC yn parhau drwy gydol y flwyddyn.

3.28 Yn ogystal â monitro parhaus rheolaidd, rydym hefyd yn canolbwyntio ar feysydd penodol os byddwn yn credu bod angen, er enghraifft, pan fydd y BBC yn gwneud newidiadau i'w wasanaethau a allai, yn ein barn ni, effeithio ar gynulleidfaoedd. Mae ein gwaith monitro yn ein galluogi i ymyrryd os byddwn yn canfod unrhyw bryderon. Ochr yn ochr â'n gwaith monitro rheolaidd a'n gallu i ymchwilio'n ddwfn i feysydd sydd o ddiddordeb penodol, mae'n rhaid i'r BBC nawr fod yn llawer mwy tryloyw ynghylch ei gynlluniau a'i berfformiad o dan y Drwydded Weithredu newydd.

3.29 Mewn perthynas â BBC Scotland, byddwn yn disgwyl i'r BBC fonitro effaith y newidiadau, gan gynnwys ar gyfer gwahanol grwpiau demograffig, fel y mae'n nodi yn ei ymateb: "Fel gyda'n holl wasanaethau a rhaglenni, byddwn yn monitro perfformiad y rhaglen newyddion 30 munud newydd. Bydd hyn yn cynnwys ffigurau gwylio cyffredinol a pherfformiad gyda gwahanol grwpiau demograffig a grwpiau targed o gynulleidfaoedd."[35] Dylai ein gwaith monitro a'r BBC ddarparu data manylach ynghylch sut mae cynulleidfaoedd yn yr Alban yn ymgysylltu â newyddion a beth yw eu barn amdano. Bydd hyn yn rhoi tystiolaeth ychwanegol i ni i asesu pa mor dda mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion ei chynulleidfaoedd targed. Byddwn yn rhoi sylw penodol i gyflawni ar gyfer grwpiau demograffig DE a byddwn yn adrodd ar effaith newidiadau i sianel BBC Scotland ar gynulleidfaoedd yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC y flwyddyn nesaf.

## Materion eraill a godwyd

3.30 Mae nifer o faterion eraill a godwyd gan randdeiliaid yn ymwneud â phenderfyniadau golygyddol, amserlennu, cyllidebol a strategol ar gyfer y BBC ac felly, yn y pen draw, maent yn faterion i Fwrdd y BBC yn hytrach nag Ofcom. Mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei gylch gwaith, am bob penderfyniad sy'n ymwneud â chyllidebau ac am bennu cyfeiriad strategol a chreadigol y BBC. Ein rôl ni yw sicrhau bod y BBC yn cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa a'i ddal i gyfrif am gyflawni Cenhadaeth y BBC a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

3.31 Serch hynny, rydym o'r farn bod yn rhaid i'r BBC barhau i werthuso ei berfformiad ac arloesi er mwyn parhau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar draws gwahanol blatfformau wrth i arferion gwylio newyddion a materion cyfoes cynulleidfaoedd esblygu. Mae rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn bwysig drwy gydol y flwyddyn ac fel y nodwyd gennym yn ein hymgynghoriad, rydym felly'n disgwyl i'r BBC sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd. Efallai na fydd y BBC bob amser yn llwyddiannus wrth arbrofi â ffyrdd newydd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd, ac felly efallai y bydd angen gwneud newidiadau i'w allbwn.

[35] Gweler BBC's consultation response, tudalen 2, paragraff 4

# 4. Penderfyniad

4.1 Ar sail y dadansoddiad a amlinellir uchod, rydym wedi penderfynu cymeradwyo cais y BBC i leihau faint o newyddion oriau brig y mae'n rhaid iddo eu darparu ar sianel deledu BBC Scotland o dan y Drwydded Weithredu. Mae'r BBC wedi dweud ei fod yn bwriadu darparu mwy o gynnwys newyddion lle mae cynulleidfaoedd ei eisiau ac yn fwyaf tebygol o ymgysylltu ag ef. Rydym yn gwybod o'n hymchwil ni a gwaith ymchwil y BBC bod cynulleidfaoedd yn yr Alban yn gwylio mwy a mwy o gynnwys newyddion y BBC ar-lein yn hytrach na'i wylio ar y teledu.

4.2 Ein barn ni yw bod gan y cynnig y potensial i sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r nodau hyn, ac y bydd yn cyfrannu at gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, a thrwy hynny o fudd i gynulleidfaoedd yn yr Alban.

4.3 Rydym yn credu mai un ffordd allweddol o ddal y BBC i gyfrif am ei newidiadau yw monitro ei berfformiad, a byddwn yn parhau i wneud hynny fel yr amlinellir uchod ac fel rhan o'n gwaith monitro parhaus rydym yn adrodd arno bob blwyddyn. Wrth gymeradwyo cynnig y BBC, rydym yn disgwyl i'r BBC fonitro perfformiad newidiadau i sianel BBC Scotland ac iddo egluro sut mae wedi cyflawni i gynulleidfaoedd yn yr Alban, gan gynnwys ar gyfer gwahanol grwpiau demograffig ac mae'n parhau i werthuso ei lwyddiannau.

4.4 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n diwygiad arfaethedig i'r Drwydded Weithredu am y rhesymau a nodir yn yr ymgynghoriad ac uchod mewn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid. **Felly, rydym wedi penderfynu derbyn gostyngiad arfaethedig y BBC i lefel y newyddion y mae'n rhaid iddo ei ddarlledu ar sianel BBC Scotland yn ystod oriau brig o 250 awr y flwyddyn galendr i 125 awr.**[36] Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad amrywio i Drwydded Weithredu'r BBC ochr yn ochr â'r datganiad hwn fel yn Atodiad A1.

[36] Bydd y gostyngiad hwn yn y cwota ar sail pro rata ar gyfer blwyddyn galendr 2024.

# A1. Hysbysiad o Amrywio

RHIF HYSBYSIAD 2 WEDI'I DDYDDIO 6 Awst 2024

I'R DRWYDDED WEITHREDU AR GYFER GWASANAETHAU CYHOEDDUS Y BBC YN Y DU AR 23 MAWRTH 2023

## Datganiadau

(A) Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth y Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y BBC ("y Siarter") a'r cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y "Cytundeb") a oedd yn mynnu bod Ofcom yn gosod trwydded ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y Deyrnas Unedig. Ar 13 Hydref 2017, cyhoeddodd Ofcom y Drwydded gyntaf. Cafodd y drwydded gyntaf hon ei diwygio ychydig o weithiau.

(B) Ar 23 Mawrth 2023, cyhoeddodd Ofcom yr ail Drwydded ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y Deyrnas Unedig (y "Drwydded"). Mae'r Drwydded wedi cael ei diwygio ychydig o weithiau.

(C) Yn unol â Chymal 80 a 13(5) o'r Cytundeb, "Gweithdrefnau Ofcom ar gyfer gosod a diwygio'r drwydded weithredu" a gyhoeddwyd ar 13 Hydref 2017 (y "Gweithdrefnau") a'i egwyddorion ymgynghori, roedd Ofcom o'r farn ei bod yn briodol o dan yr amgylchiadau i ymgynghori'n gyhoeddus ar gais y BBC i ddiwygio'r cwota newyddion ar gyfer sianel BBC Scotland a chynigiodd newidiadau canlyniadol arfaethedig i'r drwydded ar 3 Mai 2024.

(D) Mae Ofcom wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

(E) Ar ôl ymgynghori, ar 6 Awst 2024, cyhoeddodd Ofcom ddatganiad (y "Datganiad") yn nodi ein penderfyniad i gymeradwyo cais y BBC i leihau'r cwota newyddion ar sianel BBC Scotland 50% o'r 250 awr bresennol yn ystod oriau brig bob blwyddyn galendr i 125 awr.

(F) Am y rhesymau a nodir yn y Datganiad, mae Ofcom wedi penderfynu ei bod yn briodol diwygio'r Drwydded.

i) GAN HYNNY, bydd y Drwydded yn awr yn cael ei hamrywio fel a ganlyn:

1. Diwygio paragraff 4.47.2 fel a ganlyn:

   *b) O ran BBC Scotland, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf **125 awr** yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion yn ystod oriau Gwylio Brig, ym mhob Blwyddyn Galendr.*

Daw'r amrywiad hwn i'r Drwydded i rym ar unwaith ar 6 Awst 2024.

LLOFNODWYD AR GYFER OFCOM AR 18 Awst 2024

X

Cristina Nicolotti Squires

Cyfarwyddwr Grŵp Darlledu a'r Cyfryngau, Ofcom

# A2. Fframwaith Cyfreithiol

A2.1 Mae pŵer Ofcom i reoleiddio'r BBC yn deillio o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf),[37] sy'n nodi, at ddibenion rheoleiddio'r BBC, y bydd gennym bwerau a dyletswyddau o'r fath y gellir eu rhoi i ni gan neu o dan y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y Siarter)38 a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y Cytundeb).[39]

A2.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 o'r Ddeddf hefyd yn berthnasol i arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC.[40] Mae'r rhain yn cynnwys ein prif ddyletswydd, sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion sy'n nodi bod yn rhaid i egwyddorion rheoleiddio fod yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at yr achosion lle mae angen cymryd camau. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu ein bod yn ystyried, fel sy'n briodol, egwyddorion penodol eraill sy'n berthnasol yn ein barn ni. Rydym yn credu bod yr egwyddorion canlynol yn y Ddeddf yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn:

i) Pa mor ddymunol yw hyrwyddo cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU;

ii) Anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel;

iii) Barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol; ac

iv) Y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol ardaloedd o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.[41]

A2.3 O dan y Siarter, mae'n rhaid i Ofcom roi sylw i'r canlynol, fel sy'n ymddangos i ni'n berthnasol yn yr amgylchiadau, wrth gynnal ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC:[42]

v) Amcan y BBC sef cyflawni ei Genhadaeth43 a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;

vi) Pa mor ddymunol yw diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU; a

vii) Y gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswyddau cyffredinol.

A1.2

---

[37] Adran 198 o'r Ddeddf.
[38] Y Siarter.
[39] Y Cytundeb.
[40] Erthygl 45(1) yn y Siarter.
[41] Adran 3(4) o'r Ddeddf.
[42] Erthygl 45(2) yn y Siarter.
[43] Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (Erthygl 5 yn y Siarter).

A2.4 O’r pum Diben Cyhoeddus,[44] mae’r canlynol yn berthnasol i’r ymgynghoriad hwn:[45]

A2.5 Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o’u cwmpas; a

A2.6 Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau’r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny.

A2.7 Rydym yn nodi, yn rhinwedd Erthygl 20(3)(d) yn y Siarter, ei bod yn rhaid i’r BBC bennu mesurau perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny lle bo’n briodol) a chasglu pa wybodaeth bynnag sy’n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU[46] wrth gyflawni’r genhadaeth a hyrwyddo’r gwasanaethau cyhoeddus.[47]

A2.8 Ar wahân i hynny, rydym yn nodi, yn rhinwedd Erthygl 46(4)(d) yn y Siarter, y gall Ofcom bennu mesurau perfformiad (yn ychwanegol at y rhai a bennwyd gan y BBC) ac y gall gasglu pa wybodaeth bynnag sy’n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wrth gyflawni’r genhadaeth a hyrwyddo’r dibenion cyhoeddus.[48] Hefyd, efallai y bydd Ofcom yn gofyn i’r BBC gasglu gwybodaeth o’r fath fel rydym yn credu sy’n angenrheidiol ar gyfer y mesurau perfformiad.[49]

A2.9 Yn ogystal â phennu mesurau perfformiad, mae’n rhaid i ni bennu Trwydded Weithredu (y Drwydded Weithredu) sy’n cynnwys set o amodau rheoleiddio y mae’n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw.[50] Mae’r Siarter yn datgan bod yn rhaid i’r Drwydded Weithredu gynnwys amodau rheoleiddio y mae Ofcom yn credu sy’n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn:

i) Cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus;

ii) Sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

iii) Sicrhau bod cynulleidfaoedd yn yr Alban, Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu gwasanaethu’n dda.[51]

A2.10 Mae Atodlen 2 o’r Cytundeb yn cynnwys rhai rheolau pellach ynghylch yr amodau rheoleiddio y mae’n rhaid i Ofcom eu pennu drwy’r Drwydded Weithredu.

A2.11 Efallai y byddwn yn amrywio’r Drwydded Weithredu, ar ôl ymgynghori â’r BBC ac ag unrhyw berson sy’n briodol yn ein barn ni.

A2.12 Yn ogystal â phennu Trwydded Weithredu, mae’n rhaid i ni hefyd gyhoeddi fframwaith gweithredu.[52] Mae’r fframwaith gweithredu yn gyfres o ddogfennau sy’n edrych ar yr ystod

44 Erthygl 6 yn y Siarter.
45 Bydd y BBC yn cyflawni ei bumed Diben Cyhoeddus, sef adlewyrchu’r DU i’r byd, drwy BBC World Service a BBC Worldwide yn bennaf. Nid yw’r ail Drwydded Weithredu yn cynnwys BBC World Service; y BBC sy’n gyfrifol am bennu Trwydded ar gyfer BBC World Service (cymal 34 o'r Cytundeb).
46 Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wedi’u nodi mewn Rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus y DU a gynhelir ac a gyhoeddir gan y BBC.
47 Cymal 14(1) y Cytundeb.
48 Cymal 14(2) y Cytundeb.
49 Cymal 14(4) y Cytundeb.
50 O dan y Siarter a’r Cytundeb, mae’n rhaid i Ofcom bennu Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.
51 Erthygl 46(3) yn y Siarter.
52 Erthygl 46(2) yn y Siarter a Chymal 5(1) o’r Cytundeb.

lawn o’n dyletswyddau rheoleiddio newydd mewn tri maes, sef safonau cynnwys, cystadleuaeth a pherfformiad. Mae’r fframwaith gweithredu ar gyfer rheoleiddio’r BBC yn cynnwys y ‘Gweithdrefnau ar gyfer pennu a diwygio’r Drwydded Weithredu’ (y ‘Gweithdrefnau’)[53] sy’n egluro sut rydym yn pennu ac yn gweinyddu trefn y Drwydded Weithredu a’r gweithdrefnau i’w dilyn.

A2.13 Mae’r Gweithdrefnau’n nodi’r ystyriaethau y bydd Ofcom yn rhoi sylw iddynt wrth bennu neu ddiwygio’r Drwydded Weithredu, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol perthnasol, natur orfodadwy amodau’r Drwydded Weithredu a pha mor ddymunol yw sicrhau bod amodau rheoleiddio yn glir ac yn gallu cael eu gorfodi os bydd diffyg cydymffurfio.[54]

[53] Gweler Ofcom, Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd:Gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio’r drwydded weithredu, 2017.
[54] Gweler Y Gweithdrefnau, paragraffau 1.11 i 1.20.